

**2018 Rhif (Cy. )**

**2018 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Cyffordd Gorllewin Glynebwy,  
Blaenau Gwent i Gylchfan  
Hardwick, Sir Fynwy)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2018

The A465 Trunk Road (Ebbw Vale  
West Junction, Blaenau Gwent to  
Hardwick Roundabout,  
Monmouthshire) (Temporary  
Traffic Prohibitions and  
Restrictions) Order 2018

*Gwnaed* 1 Mai 2018

*Made* 1 May 2018

*Yn dod i rym* 7 Mai 2018

*Coming into force* 7 May 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i Y Fenni, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd honno neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 7 Mai 2018.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Ebbw Vale West Junction, Blaenau Gwent to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 7 May 2018.

2. — (1) Yn y Gorchymyn hwn:

2. — (1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 7 Tachwedd 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o Gefnffordd yr A465 Castell-nedd i Y Fenni rhwng Cyffordd Gorllewin Glynebwy yn Sir Blaenau Gwent a Chylchfan Hardwick yn Sir Fynwy a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

(a) any vehicle being used by the emergency services; and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lloedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road from Ebbw Vale West Junction in the County of Blaenau Gwent to Hardwick Roundabout in the County of Monmouthshire described in the Schedules to this Order;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 7 November 2016 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

### Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1.

4. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to make a right hand turn on the length of the trunk road specified in Schedule 2.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, oddiweddyd wrth yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur oddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

#### **Atal**

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 a 7 yn weithredol.

#### **Cymhwyso**

11. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

#### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mai 2018

*Richard Morgan*  
Pennaeth Safonau Rheoli Asedau  
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4.

7. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4.

8. No person may, during the works period, drive, or cause or permit any vehicle to overtake on the length of the trunk road specified in Schedule 4.

9. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 5.

#### **Suspension**

10. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the trunk road specified in article 2 are suspended during such times as the restriction specified in article 6 and 7 is in operation.

#### **Application**

11. (1) The provisions of articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only during such times and to such extent as the application of the prohibitions and restrictions referred to therein are indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

#### **Duration of this Order**

12. The maximum duration for this Order will be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 1 May 2018

*Richard Morgan*  
Head of Asset Management Standards  
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

#### GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden hyd at ddechrau ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr i ganol ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Y gerbyttffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r gorllewin hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r dwyrain.

Y gerbyttffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r dwyrain yr hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r gorllewin.

### ATODLEN 2

#### DIM TROI I'R DDE

Dim troi i'r dde oddi ar gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern i Station Road.

### ATODLEN 3

#### TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 800 o fetrau i'r gogledd orllewin o ganol y Cylchfan Bryn-mawr i Ganolfan Cyffordd Dwyrain Fro Glyn Ebwy ar ffordd ymadael

### ATODLEN 4

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1

#### PROHIBITION OF VEHICLES

That length of the trunk road from a point 37 metres north of the centre of Brynmawr Roundabout to a point 38 metres west of the centre of Glanbaiden Roundabout.

That length of the eastbound carriageway of the trunk road from a point 38 metres east of the centre of Glanbaiden Roundabout to the start of the Llanfoist exit slip road.

That length of the westbound carriageway of the trunk road from a point 45 metres west of the centre point of Hardwick Roundabout to a point 38 metres east of the centre of Glanbaiden Roundabout.

That length of the eastbound trunk road (new alignment lanes) from the centre of the Ebbw Vale West Junction off slip road to a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout.

That length of the westbound trunk road (new alignment lanes) from a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout to the centre of the Ebbw Vale West Junction on slip road.

The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its A465 westbound exit arm to its A465 eastbound entry arm.

The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its A465 eastbound exit arm to its A465 westbound entry arm.

### SCHEDULE 2

#### NO RIGHT TURN

No right turn from the eastbound carriageway of the trunk road at Gilwern Junction into Station Road.

### SCHEDULE 3

#### 50 MPH SPEED LIMIT

That length of the trunk road from a point 800 metres north west of the centre of the Brynmawr Roundabout to the centre of the Ebbw Vale East Junction on slip road.

### SCHEDULE 4

**TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN  
CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 800 metr i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

**ATODLEN 5**

**GWAHARDD BEICWYR**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465  
(CYFFORDD GORLLEWIN GLYNEBWy,  
BLAENAU GWENT I GYLCHFAN HARDWICK,  
SIR FYNWY) (GWAHARDDIADAU A  
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS  
DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465 rhwng Cyffordd Gorllewin Glynebwy ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chylchfan Hardwick yn Sir Fynwy.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a ganlyn, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 7 Mai 2018 ac yn gweithredu tan 6 Tachwedd 2019. Dim ond dros nos (20.00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) y bydd y ffordd wedi ei chau, a hynny'n ysbeidiol yn unig ac ar benwythnosau rhwng 20.00 o'r gloch ar y dydd Gwener hyd 06.00 o'r gloch ar y dydd Llun. Bydd Hysbysiadau ymlaen llaw yn cael eu harddangos yn nes at y dyddiadau.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:-

- i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r

**40 MPH SPEED LIMIT, 10 MPH SPEED LIMIT  
AND NO OVERTAKING**

That length of the trunk road from a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout to a point 800 metres north west of the centre of Brynmawr Roundabout.

**SCHEDULE 5**

**PROHIBITION OF CYCLISTS**

That length of the trunk road (new alignment lanes) from the centre of the Ebbw Vale West Junction off slip to a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout.

That length of the trunk road from a point 37 metres east of the centre of the Brynmawr Roundabout to the eastbound off slip road at Llanfoist Junction on the eastbound lanes and the westbound off slip road at Llanfoist Junction for the westbound lanes.

**THE A465 TRUNK ROAD (EBBW VALE WEST  
JUNCTION, BLAENAU GWENT TO  
HARDWICK ROUNDABOUT,  
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC  
PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS)  
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Ebbw Vale West Junction in the County Borough of Blaenau Gwent and Hardwick Roundabout in the County of Monmouthshire.

The following prohibitions and restrictions, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 7 May 2018 and operate until 6 November 2019. The road closures will be in force overnight only (20.00 hours to 06.00 hours) on an intermittent basis and on weekends from 20.00 hours on the Friday to 06.00 hours on the Monday. Advance Notices will be displayed nearer the dates.

The effect of the Order is to temporarily:-

- i. prohibit all vehicles, with exemption for vehicles being used by the emergency services and for the works, from proceeding

- gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y llwybrau eraill fel y'u disgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;
- ii. gwahardd pob cerbyd rhag troi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y llwybr arall fel y'i disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
  - iii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn;
  - iv. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn;
  - v. gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fo gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn;
  - vi. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fo gwaith confoi yn digwydd ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn;
  - vii. gwahardd beicwyr rhag mynd ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y llwybrau eraill fel y'u disgrifir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
 Trafnidiaeth  
 Llywodraeth Cymru

in the lengths of the trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes will be as described in Schedule 1 to this Notice;

- ii. prohibit all vehicles from making a right hand turn in the length of the trunk road described in Schedule 2 to this Notice. The alternative route will be as described in Schedule 2 to this Notice;
- iii. impose a 50 mph speed limit in that length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice;
- iv. impose a 40 mph speed limit in that length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Notice;
- v. impose a 10 mph speed limit during convoy working in the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Notice;
- vi. prohibit all vehicles, with exemption for vehicles being used by the emergency services and for the works, from overtaking during convoy working in those length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Notice;
- vii. prohibit cyclists from proceeding in those lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Notice. The alternative routes will be as described in Schedule 5 to this Notice.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
 Transport  
 Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

#### GWAHARDD CERBYDAU

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff i. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd wrth Gylchfan Hardwick ac yna dilyn yr A4042 tua'r de hyd at Gylchfan Pont-y-moel, yr A472 tua'r gorllewin hyd at Gyffordd Crymlyn yr A467/A472, a'r A467 tua'r gogledd hyd at Gylchfan Bryn-mawr. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff i. uchod fydd i'r gwrthwyneb.

ii. Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden hyd at ddechrau ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff ii. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd wrth Gylchfan Glanbaiden a theithio tua'r gorllewin ar yr A465 hyd at Gylchfan Bryn-mawr, yna tua'r de ar yr A467 hyd at Gyffordd Crymlyn, yna tua'r dwyrain ar yr A472 hyd at Gylchfan Pont-y-moel ac yna tua'r gogledd ar yr A4042 hyd at Gylchfan Hardwick.

iii. Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff iii. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd wrth Gylchfan Hardwick a theithio tua'r de ar yr A4042 hyd at Pont-y-moel, yna tua'r gorllewin ar yr A472 hyd at Gyffordd Crymlyn yr A467/A472 ac yna tua'r gogledd ar yr A467 hyd at Gylchfan Bryn-mawr a thua'r dwyrain ar yr A465 hyd at Gylchfan Glanbaiden. Bydd angen i gerbydau sy'n ymuno â'r A465 wrth Gyffordd Llan-ffwyst deithio tua'r dwyrain i Gylchfan Hardwick cyn dilyn y llwybr dargyfeiriol.

iv. Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1

#### PROHIBITION OF VEHICLES

i. That length of the trunk road from a point 37 metres north of the centre of Brynmawr Roundabout to a point 38 metres west of the centre of Glanbaiden Roundabout.

The alternative route for westbound vehicles affected by the prohibition at i. above will be to leave the trunk road at Hardwick Roundabout and then via the A4042 southbound to Pontymoile Roundabout, the A472 westbound to the A467/A472 Crumlin Junction, and the A467 northbound to Brynmawr Roundabout. The alternative route for eastbound vehicles affected by the prohibition at i. above will be vice versa.

ii. That length of the eastbound carriageway of the trunk road from a point 38 metres east of the centre of Glanbaiden Roundabout to the start of the Llanfoist exit slip road.

The alternative route for eastbound vehicles affected by the prohibition at ii. above will be to leave the trunk road at Glanbaiden Roundabout and travel west via the A465 to Brynmawr Roundabout, then south on the A467 to Crumlin Junction, then east on the A472 to Pontymoile Roundabout and then north on the A4042 to Hardwick Roundabout.

iii. That length of the westbound carriageway of the trunk road from a point 45 metres west of the centre point of Hardwick Roundabout to a point 38 metres east of the centre of Glanbaiden Roundabout.

The alternative route for westbound vehicles affected by the prohibition at iii. above will be to leave the trunk road at Hardwick Roundabout and travel south on the A4042 to the Pontymoile Roundabout, then west on the A472 to the A467/A472 Crumlin Junction and then north on the A467 to Brynmawr Roundabout and A465 eastbound to Glanbaiden Roundabout. The vehicles joining the A465 at the Llanfoist Junction will need to travel east to Hardwick Roundabout before taking up the diversion route.

iv. That length of the eastbound trunk road (new alignment lanes) from the centre of the Ebbw Vale West Junction off slip road to a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout.

The alternative route for eastbound vehicles affected by the prohibition at iv. above will be to leave the

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff iv. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd wrth ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy i ddilyn yr A465 y tynnwyd statws cefnffordd oddi arni hyd at Gylchfan Glynebwy, yna tua'r de ar yr A4046 i Gylchfan Aber-big ac yna tua'r de-ddwyrain ac yna tua'r dwyrain ar yr A467 i Gylchfan Bryn-mawr.

v. Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr i ganol ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff v. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd wrth Gylchfan Bryn-mawr a dilyn yr A467 tua'r de i Gylchfan Aber-big, ac yna'r A4046 i Gylchfan Glynebwy ac yna'r A465 y tynnwyd statws cefnffordd oddi arni i Gyffordd Gorllewin Glynebwy.

vi. Y gerbyttffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r gorllewin i'w ffordd ymuno â'r A465 tua'r dwyrain.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff vi. uchod fydd ymadael â Chylchfan Glanbaiden ar yr A465 tua'r gorllewin i gylchfan dros dro sydd 895 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Glanbaiden cyn dychwelyd i Gylchfan Glanbaiden ar yr A465 tua'r dwyrain.

vii. Y gerbyttffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r dwyrain i'w ffordd ymuno â'r A465 tua'r gorllewin.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff vii. uchod fydd ymadael â Chylchfan Glanbaiden ar yr A465 tua'r dwyrain hyd at Gylchfan Hardwick cyn dychwelyd i Gylchfan Glanbaiden ar yr A465 tua'r gorllewin.

## **ATODLEN 2**

### **DIM TROI I'R DDE**

Dim troi i'r dde oddi ar gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern i Station Road.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad uchod fydd parhau tua'r dwyrain ar yr A465 hyd at Gylchfan Glanbaiden cyn dychwelyd ar yr A465 tua'r gorllewin i ymadael i'r chwith i Station Road.

trunk road at Ebbw Vale West Junction off slip on to the de-trunked A465 to the Ebbw Vale Roundabout, then southbound on the A4046 to Aberbeeg Roundabout and then southeast and then east on the A467 to Brynmawr Roundabout.

v. That length of the westbound trunk road (new alignment lanes) from a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout to the centre of the Ebbw Vale West Junction on slip road.

The alternative route for westbound vehicles affected by the prohibition at v. above will be to leave the trunk road at Brynmawr Roundabout on to the A467 southbound to Aberbeeg Roundabout and then the A4046 to Ebbw Vale Roundabout and then on to the de-trunked A465 to the Ebbw Vale West Junction.

vi. The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its A465 westbound exit arm to its A465 eastbound entry arm.

The alternative route for vehicles affected by the prohibition at vi. above will be to exit the Glanbaiden Roundabout on the A465 westbound to the temporary roundabout 895 metres west of the centre of Glanbaiden Roundabout before returning to the Glanbaiden Roundabout on the A465 eastbound.

vii. The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its A465 eastbound exit arm to its A465 westbound entry arm.

The alternative route for vehicles affected by the prohibition at vii. above will be to exit the Glanbaiden Roundabout on the A465 eastbound to Hardwick Roundabout before returning to the Glanbaiden Roundabout on the A465 westbound.

## **SCHEDULE 2**

### **NO RIGHT TURN**

No right turn from the eastbound carriageway of the trunk road at Gilwern Junction into Station Road.

The alternative route for vehicles affected by the above prohibition will be to continue eastbound on the A465 to Glanbaiden Roundabout before returning on the A465 westbound to exit left into Station Road.

## **SCHEDULE 3**

### **50 MPH SPEED LIMIT**

That length of the trunk road from a point 800 metres north west of the centre of the Brynmawr Roundabout



### **ATODLEN 3**

#### **TERFYN CYFLYMDER 50 MYA**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 800 o fetrau i'r gogledd orllewin o ganol y Cylchfan Bryn-mawr i Ganolfan Cyffordd Dwyrain Fro Glyn Ebwy ar ffordd ymadael

### **ATODLEN 4**

#### **TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 800 metr i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

### **ATODLEN 5**

#### **GWAHARDD BEICWYR**

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r dwyrain yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff i. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd ar ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy i ddilyn yr A465 y tynnwyd statws cefnffordd oddi arni i Gylchfan Glynebwy ac yna tua'r de ar yr A4046 a thua'r dwyrain ar yr A4047 i Gylchfan Bryn-mawr gyda chaine i'r B4560 i ddarparu cyswllt â Heol Llangynidr. Y llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff i. uchod fydd i'r gwrthwyneb.

ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r dwyrain yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff ii. uchod fydd ymadael â'r gefnffordd a mynd ymlaen drwy Gylchfan Bryn-mawr, i'r A4047 King Street, Intermediate Road, Main Road, Maesygrwrtha Road, Church Road a'r A4077 tua'r dwyrain i Gylchfan Glanbaiden, yna ffordd ymadael tua'r de Cylchfan Glanbaiden i'r B4246 tua'r dwyrain i'r gyffordd â'r A4143 cyn dychwelyd i'r A465. Y

to the centre of the Ebbw Vale East Junction on slip road.

### **SCHEDULE 4**

#### **40 MPH SPEED LIMIT, 10 MPH SPEED LIMIT AND NO OVERTAKING**

That length of the trunk road from a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout to a point 800 metres north west of the centre of Brynmawr Roundabout.

### **SCHEDULE 5**

#### **PROHIBITION OF CYCLISTS**

i. That length of the trunk road (new alignment lanes) from the centre of the Ebbw Vale West Junction off slip to a point 37 metres north of the centre of the Brynmawr Roundabout.

The alternative route for eastbound cyclists affected by the prohibition at i. above will be to leave the trunk road via the Ebbw Vale West Junction off slip on to the de-trunked A465 to Ebbw Vale Roundabout and then south on the A4046 and east on the A4047 to Brynmawr Roundabout with a spur onto the B4560 to provide connectivity with Llangynidr Road. The alternative route for westbound cyclists affected by the prohibition at i. above will be vice versa.

ii. That length of the trunk road from a point 37 metres east of the centre of the Brynmawr Roundabout to the eastbound off slip road at Llanfoist Junction on the eastbound lanes and the westbound off slip road at Llanfoist Junction for the westbound lanes.

The alternative route for eastbound cyclists affected by the prohibition at ii. above will be to leave the trunk road and proceed via Brynmawr Roundabout, onto the A4047 King Street, Intermediate Road, Main Road, Maesygrwrtha Road, Church Road and onto the A4077 eastbound to Glanbaiden Roundabout, then the southbound exit of Glanbaiden Roundabout onto the B4246 eastbound to the junction with the A4143 before returning to the A465. The alternative route for westbound cyclists affected by the prohibition at ii. above will be vice versa.

llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ym mharagraff ii. uchod fydd i'r gwrthwyneb.